

Ynglŷn â'r Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol:

Mae'r Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol (NOYO) yn gerddorfa uchelgeisiol, a'r cyntaf o'i math yn y byd, a lansiwyd ym mis Medi 2018 i roi llwybr dilyniant i rai o gerddorion ifanc anabl mwyaf dawnus y DU. Mae'n hybu rhagoriaeth gerddorol, gan rymuso cerddorion anabl a rhai nad ydynt yn anabl sydd rhwng 11 a 25 oed i rihysio a pherfformio gyda'i gilydd fel aelodau o ensemble arloesol. Mae rhai o gerddorion y Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol yn chwarae offerynnau acwstig; eraill, offerynnau electronig fel y Clarion, y gellir ei chwarae drwy symud unrhyw ran o'r corff gan gynnwys y llygaid.

Rhaglen gan **Open Up Music** yw'r Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol.

Ein Gweledigaeth

Byd lle mae cerddoriaeth yn agored i gerddorion ifanc anabl

Ein Cenhadaeth

Agor cerddoriaeth i gerddorion ifanc anabl

Ein Gwerthoedd

Amrywiaeth: Rydym yn creu mwy o amrywiaeth drwy hybu cynhwysiant cerddorol a chynrychiolaeth anabl

Cymuned: Rydym yn cydweithio ac yn cefnogi ein gilydd i wneud i newid cadarnhaol ddigwydd

Creadigrwydd: Rydym yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd drwy gerddoriaeth gyffrous, wedi'i chreu a'i rhannu mewn ffyrdd creadigol

Dylanwad: Rydym yn gweithio ochr yn ochr â cherddorion ifanc anabl i ddylanwadu ar ragdybiaethau a'u herio

Ynglŷn â Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC:

Ers 90 mlynedd mae BBC NOW wedi chwarae rhan annatod yn nhirwedd ddiwylliannol Cymru, gyda rôl nodedig fel cerddorfa symffoni ddarlledu a chenedlaethol. Mae'n perfformio amserlen brysur o gyngherddau byw ledled Cymru a gweddill y DU. Mae'n rhan o BBC Cymru ac fe'i cefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ac mae'r Gerddorfa yn llysgennad i gerddoriaeth Gymreig, yn hyrwyddo cyfansoddwyr a cherddorion cyfoes ac yn cydweithio'n agos â'r Cyfansoddwr Cyswllt o Gymro Huw Watkins. Mae Corws Cenedlaethol Gymreig y BBC yn un o'r corysau cymysg mwyaf blaenllaw yn y DU ac, er yn cadw ei statws amatur, mae'n gweithio i'r safonau proffesiynol uchaf o dan y Cyfarwyddwr Artistig, Adrian Partington. Wedi'i leoli yn Neuadd Hoddinott y BBC ym Mae Caerdydd, mae Corws Cenedlaethol Gymreig y BBC yn cynnwys dros 150 o gantorion.

Mae perfformiadau gan y Gerddorfa a'r Corws i'w clywed yn rheolaidd ar draws y BBC, ar Radio 3, Radio Wales a Radio Cymru. Mae BBC NOW yn perfformio bob dwy flynedd yng nghystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd ac yn flynyddol ym Mhroms y BBC. Gan adeiladu ar ei waith helaeth gydag ysgolion anghenion addysgol arbennig, perfformiodd BBC NOW y Prom Hamddenol cyntaf erioed yn 2017, a enillodd wobwr y Digwyddiad Teuluol Gorau yng Ngwobrau Fantastic for Families 2018.

Mae cartref y Gerddorfa a'r Corws yn Neuadd Hoddinott y BBC ym Mae Caerdydd, lle mae BBC NOW yn parhau â'i waith fel un o gerddorfeydd traciau sain mwyaf blaenllaw'r DU.

Professional and Support Services Limited

Gwybodaeth Atodol – Arweinydd Cerddoriaeth Canolfan Cerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol

Gweledigaeth Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC yw ‘cyfoethogi bywydau drwy gerddoriaeth’. Mae’r cyfoethogiad hwn yn gynhenid, ac mae BBC NOW yn gerddorfa symffoni ryngwladol.

Mae BBC NOW yn cyflawni rôl ddeuol. Mae’n gerddorfa ddarlledu sy’n darparu cynnwys ar draws platfformau’r BBC. Hi hefyd yw Cerddorfa Genedlaethol Cymru ac mae uchelgeisiau’r gerddorfa ar gyfer Cymru a’r BBC yn sylweddol. Mae’n ymdrechu i fod yn rym er lles i’w ddau randdeiliad allweddol; uchelgais i fod yn feincnod cerddorfaol ar gyfer y DU – cyfuniad llwyddiannus o ddarlledu a geo-benodol yn ein gweithgarwch; ynghyd â thîm creadigol o ansawdd uchel sy’n adlewyrchu natur y gymdeithas y mae’n gweithredu ynddi.

Mae’r dibenion sylfaenol canlynol yn parhau’n greiddiol i ddyfodol BBC NOW:

- Ymgysylltu cynulleidfaoedd â safonau o ansawdd uchel
- Bod â chyrhaeddiad ryngwladol
- Meithrin doniau presennol a’r genhedlaeth nesaf o berfformwyr a chantorion cerddorfaol
- Hyrwyddo cerddoriaeth a cherddorion Cymreig

Mae’r bartneriaeth hon gyda Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn greiddiol i gyflawniad penodol y trydydd o’r dibenion sylfaenol hyn: meithrin doniau.

Yn ystod gwanwyn 2023 cynhelir clyweliadau ar gyfer cerddorion i ymuno â grŵp rhanbarthol NOYO Caerdydd. Cynhelir rihyrsals ar ddydd Sadwrn. Er mwyn sicrhau bod ein holl gerddorion yn teimlo’n hyderus, yn bersonol ac yn gerddorol, o fewn NOYO, mae dau grŵp o fewn y gerddorfa:

Bydd Hyfforddeion NOYO yn cael gwersi un i un a chymorth bugeiliol ond mae angen mwy o hyder a sgiliau arnynt cyn y gallant fynychu sesiynau preswyl a chwarae mewn cyngherddau. Fe’u gwahoddir i ymuno â rhai rihyrsals. Bydd gan Hyfforddeion NOYO hyd at dair blynedd i symud ymlaen i ddod yn aelod.

Yn 2023-24, bydd pum Canolfan NOYO:

1. Canolfan NOYO Bryste, mewn partneriaeth â Bristol Beacon
2. Canolfan NOYO Llundain, mewn partneriaeth â’r Barbican a’r Guildhall School of Music & Drama
3. Canolfan NOYO Bournemouth, mewn partneriaeth â Cherddorfa Symffoni Bournemouth
4. Canolfan NOYO Birmingham, mewn partneriaeth â Chanolfan Gelfyddydau Canolbarth Lloegr, B:Music and Services for Education
5. Canolfan NOYO Caerdydd, mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

Mae pob Canolfan NOYO yn cyfarfod am ddeg rihyrsal y flwyddyn. Mae’r Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol lawn yn cyfarfod unwaith y flwyddyn bob mis Ebrill ar gyfer cwrs preswyl, cyn perfformio cyfres o gyngherddau haf.

Professional and Support Services Limited
Gwybodaeth Atodol – Arweinydd Cerddoriaeth Canolfan Cerddorfa Ieuenctid Agored
Genedlaethol

Amserlen ddangosol o weithgareddau:

Disgrifiad	Dyddiadau	Lleoliad
Ymsefydlu - mynychu un diwrnod o gwrs preswyl	11-14 Ebrill 2023	Treloar's, Hampshire
Ymsefydlu – mynychu un cyngerdd	Ebrill/Mai 2023 (Bryste 15 Mai)	St George's, Bryste
Recriwtio Cerddorion – 1 x sesiwn blasu NOYO	Mawrth 2023	CBCDC
Ymsefydlu - 1 diwrnod o hyfforddiant ymsefydlu	Mai 2023	I'w gadarnhau
Recriwtio Cerddorion – 1 diwrnod o glyweliadau	Mai 2023	I'w gadarnhau
Recriwtio Cerddorion – 1 diwrnod cyfarfod dewis	Mehefin2023	I'w gadarnhau
10 x rihysal misol Amser galwad: 12:30 i 6:30pm	Medi 2023 - Gorffennaf 2024	CBCDC
1 diwrnod o gynllunio a pharatoi ychwanegol fesul rihysal	Medi 2023 - Gorffennaf 2024	O bell
6 diwrnod i gysylltu â cherddorion a 121 o athrawon y tu allan i rihysals (yn ôl yr angen)	Medi 2023 – Gorffennaf 2024	O bell
3 diwrnod datblygu Arweinyddion Cerddoriaeth	Hydref 2023 Chwefror 2024 Gorffennaf 2024	I'w gadarnhau